

## **Unedau Cwarantin - Argymhellion Adolygiad Cerrig Milltir**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad cerrig milltir ar ôl cyflwyno Unedau Cwarantin yn 2017.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cael adborth gan y diwydiant ar y rheolau a'r gofynion gweithredol drwy gynnal digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cymdeithasau sioeau ac undebau'r ffermwyr, a chafodd ei gynnal yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol ar 20 Tachwedd 2018.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi codi rheolau gweithredol y cynllun mewn cyfarfod o'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw ym mis Hydref 2018. Yna, fe wnaeth gasglu data am symud anifeiliaid o ffermydd Cymru i sioeau rhanbarthol yn y blynyddol cyn, ac ar ôl, cyflwyno'r unedau cwarantin.

Casglwyd yr ymatebion a ddaeth gan y diwydiant amaeth a gan ysgrifenyddion y sioeau, a lluniwyd rhestr o argymhellion. Cafodd yr argymhellion eu cymeradwyo gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Rhagfyr 2018.

Nod yr argymhellion canlynol yw ei gwneud yn haws i ffermwyr gael, a chadw, uned gwarantin.

1. Cyfathrebu gwell rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid drwy ddigwyddiadau a chanllawiau symlach.
2. Edrych eto ar y canllawiau ar yr Unedau Cwarantîn mewn cysylltiad â TB, a gwneud y canllawiau'n gliriach os yw hynny'n briodol.
3. Ystyried y posibilrwydd o newid y rheol sy'n gofyn i ffermwyr roi gwybod o fewn 24 awr bod anifeiliaid wedi'u symud i'r uned gwarantîn ac o fewn 3 niwrnod eu bod wedi'u symud o'r uned gwarantîn.
4. Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun grant ar gyfer ardystio Unedau Cwarantîn. Bydd hyn yn helpu ffermwyr i ysgwyddo cost ardystio;
5. Ymchwilio i'r posibilrwydd o ganiatáu i'r corff ardystio roi tystysgrifau a chynnal archwiliadau adnewyddu fesul grŵp o ffermydd;
6. Ystyried a allai'r corff ardystio gyfuno ymweliadau archwilio unedau cwarantîn ag ymweliadau eraill er mwyn lleihau costau;

7. Rhoi mwy o ryddid i archwilywyr wrth asesu a yw unedau cwarantîn yn cydymffurfio â'r gofynion (e.e. defnyddio rhwystrau naturiol o gwmpas yr uned).

8. Gofyn i'r corff ardystio symleiddio'r broses adnewyddu tystysgrif uned gwarantîn; a

9. Parhau i gasglu data am symud anifeiliaid o ddaliadau yng Nghymru i sioeau amaethyddol.